Ofcom
sicrhau bod cyfathrebiadau'n
gweithio i bawb

# Y Gronfa Radio Cymunedol

## Adroddiad diwedd blwyddyn: 2021-22

Dyddiad Cyhoeddi: 16 Medi 2022

# Cynnwys

**Adran**


| | |
|---|---|
| 1. Trosolwg | 1 |
| 2. Y Gronfa Radio Cymunedol – Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2021-22 | 2 |

# 1. Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn egluro sut cafodd y Gronfa Radio Cymunedol ("y Gronfa") ei gweinyddu yn 2021/22. Mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ("DCMS") wedi gofyn i Ofcom weinyddu'r Gronfa. Mae DCMS yn rhoi swm o arian i'r Gronfa bob blwyddyn, ac mae grantiau'n cael eu dyfarnu i orsafoedd radio cymunedol sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom.

Yn 2020-21, defnyddiwyd y Gronfa i ddarparu cyllid brys i gefnogi gorsafoedd radio cymunedol drwy'r pandemig COVID-19, yn enwedig lle gallai'r gorsafoedd hynny fod wedi methu â pharhau â'u gweithrediadau fel arall.

Yn 2021-22, dychwelodd y Gronfa i'w fformat arferol, gan ddarparu cyllid grant ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol i roi hwb i'w cynaliadwyedd ariannol a chryfhau eu darpariaeth o enillion cymdeithasol.

# 2. Y Gronfa Radio Cymunedol - Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2021 - 22

2.1 Diben y Gronfa Radio Cymunedol yw helpu'r rheini sy'n dal trwyddedau radio cymunedol, a helpu gyda'r costau craidd sy'n codi wrth ddarparu gwasanaethau radio cymunedol. Yn 2021-22 dychwelodd y Gronfa i'r diben hwn, gan fod y Gronfa wedi dosbarthu cyllid brys yn ystod y flwyddyn flaenorol i helpu gorsafoedd i aros ar agor drwy anawsterau ariannol pandemig y coronafeirws.

2.2 Ofcom sy'n gweinyddu'r Gronfa ar ran DCMS. Mae'r arian sy'n cael ei ddyrannu i'r Gronfa yn cael ei roi ar ffurf grantiau, yn dilyn proses ymgeisio ffurfiol.

2.3 Panel y Gronfa Radio Cymunedol ("y Panel") sy'n penderfynu ar y ceisiadau am grant, ac mae'r Panel yn adrodd i Fwrdd Rheoli a Pholisi Ofcom.

2.4 Roedd DCMS wedi dyrannu £400,000 i'r Gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022. Cafodd £5,432 o arian a oedd wedi cael ei gamwario, neu heb gael ei wario, yn y flwyddyn flaenorol hefyd ei ddyrannu i'r Gronfa. Yn ogystal, fe wnaeth y DCMS ddyrannu £200,000 i'r Gronfa ar gyfer ail rownd y ceisiadau ar gyfer cyllid. O ganlyniad roedd £605,432 ar gael dros y flwyddyn.

2.5 Cyfarfu'r Panel ddwywaith yn ystod y flwyddyn i ystyried y ceisiadau am grantiau, ym mis Awst 2021 ac ym mis Chwefror 2022.

## Crynodeb o'r taliadau

2.6 Yn y rownd gyntaf, dyfarnwyd cyfanswm o £221,467 mewn grantiau i 23 gorsaf.

2.7 Yn yr ail rownd, dyfarnwyd cyfanswm o £390,689 mewn grantiau i 26 gorsaf.[1]

2.8 Dros y ddwy rownd cyllido, cafodd 141 o geisiadau eu hystyried, gan ofyn am gyfanswm o £2,074,167 (£1,044,517 yn y rownd gyntaf a £1,029,650 yn yr ail rownd).

2.9 Roedd gwerth y grantiau a ddyfarnwyd yn amrywio o £2,000 i £22,166, a £12,493 oedd y dyfarniad cyfartalog. Dyfarnwyd cyfanswm o 49 grant.

## Blaenoriaethau'r Panel

2.10 Yn dilyn pob rownd gyllido mae Ofcom yn cyhoeddi datganiad gan y Panel sy'n nodi'r dyfarniadau a wnaed, ac yn egluro blaenoriaethau cyllido'r Panel. Fel rhan o'r datganiad hwn, mae'r Panel hefyd yn darparu adborth cyffredinol ar y ceisiadau a dderbyniwyd er mwyn darparu rhywfaint o gymorth i ymgeiswyr aflwyddiannus mewn unrhyw geisiadau y gallent eu cyflwyno yn y dyfodol.

---

[1] Dros y ddwy rownd o gyllid yn 2021-22, roedd y Gronfa wedi gorwario o'i chymharu â faint o arian oedd ar gael. Mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac Ofcom wedi cytuno y bydd y gorwariant yn dod o gronfa gyllido 2022/23.

2.11 Yn y ddwy rownd, nododd y Panel fod lefel y ceisiadau yn sylweddol uwch na faint o arian oedd ar gael ar gyfer y Gronfa, a oedd yn golygu bod yn rhaid i'r Panel benderfynu rhwng nifer fawr o geisiadau a oedd yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Roedd y Panel wedi ystyried yr holl wybodaeth a ddarparwyd gan ymgeiswyr, ac wedi ystyried amrywiaeth o ffactorau.

2.12 Roedd y Panel o'r farn y dylai grantiau'r Gronfa helpu, cymaint ag y bo modd, i ddatblygu cynaliadwyedd ariannol gorsafoedd radio cymunedol. O'r herwydd, roedd y Panel yn ffafrio cynigion i hyrwyddo sicrwydd ariannol a swyddi a allai fod yn hunangynhaliol.

2.13 Serch hynny, yn y rownd gyntaf, roedd y Panel wedi ariannu nifer o estyniadau tymor byr i swyddi a gyllidwyd yn flaenorol - swyddi roedd y pandemig wedi effeithio arnynt. Nododd y Panel, yn gyffredinol, mai anaml iawn y bydd cyllid yn cael ei ddyrannu eto ar gyfer yr un rôl.

2.14 Yn y rownd gyntaf, dyfarnodd y Panel gyllid i grwpiau rhwydweithio, fel Radio Hub a'r Rhwydwaith Radio Cymunedol. Roedd y Panel yn falch bod y digwyddiadau a sefydlwyd gan y grwpiau hyn yn llwyddiannus a'u bod wedi caniatáu i'r rhwydweithiau dyfu, gan fod y rhain hefyd wedi derbyn cyllid o'r blaen. Mynegodd y Panel ei obaith y byddai'r cyllid a fyddai'n cael ei ddarparu yn Rownd Un yn caniatáu i'r rhwydweithiau hyn fod yn hunangynhaliol a dywedodd na fyddai'r rhain yn debygol o gael rhagor o gyllid mewn rowndiau yn y dyfodol.

2.15 Mae'r datganiadau cryno o'r dyfarniadau, a sylwadau ychwanegol gan y Panel, ar gael ar dudalen y Gronfa Radio Cymunedol ar wefan Ofcom.

## Monitro grantiau

2.16 Mae gan y Panel weithdrefn adrodd ar waith i wneud yn siŵr bod y dyfarniadau grant yn cael eu gwario fel y cytunwyd. Rhoddir cytundeb grant ar waith rhwng Ofcom a phob trwyddedai sy'n cael grant, ac mae'r cytundeb yn nodi telerau'r dyfarniad, gan gynnwys cyfnod gwario. Ar ddiwedd cyfnod gwario'r grant, mae'n rhaid i'r ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau adroddiad (yr 'adroddiad grant') sy'n rhoi manylion ynghylch sut roedden nhw wedi gwario eu grant o'r Gronfa. Ar ben hynny, gofynnir am adroddiadau grant interim hanner ffordd drwy'r cyfnod gwario perthnasol. Nod yr adroddiadau interim ydy helpu i ddod o hyd i unrhyw broblemau posibl a fydd yn deillio o wario'r grant. Os na chyflwynir adroddiad boddhaol, efallai y bydd y Panel yn gofyn am y grant yn ôl ac efallai na fydd yn ystyried rhoi grant arall i'r trwyddedai.

2.17 Er mwyn lleihau'r baich ar drwyddedeion sy'n cael cyllid brys, cytunwyd i beidio â gofyn am unrhyw adroddiadau grant ar gyfer grantiau a ddyfarnwyd yn 2020-21. Darparwyd rhywfaint o adroddiadau grant i Ofcom yn ystod y rowndiau cyllido ac at ddibenion eraill, ac roedd yr adroddiadau hyn yn foddhaol. Rydym wedi dychwelyd at gasglu adroddiadau grant gan bob trwyddedai sy'n cael cyllid o 2021-22, a bydd adroddiadau ar y rowndiau cyllid hyn yn cael eu casglu a'u dadansoddi maes o law.

2.18 Os bydd trwyddedai yn rhoi'r gorau i ddal ei drwydded darlledu (ee drwy ildio neu ddirymu) tra bydd cytundeb grant mewn lle, bydd yn rhaid talu'n ôl unrhyw arian grant nad ydyw wedi cael ei wario yn llawn.

2.19 Yn ddiweddarach, cyflwynodd un trwyddedai a gafodd grant yn Rownd Un gais i addasu'r cyllid a ddyfarnwyd iddo. Cytunodd y Panel i ran o'r cais hwn.

## Y sector radio cymunedol a dyfodol y Gronfa

2.20 Mae'r sector radio cymunedol wedi parhau i dyfu: roedd 318 o orsafoedd yn darlledu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2021/22, wrth gymharu â 307 yn 2020/21. Fe wnaethom orffen y rownd olaf o drwyddedu radio cymunedol analog ym mis Mawrth 2020, yn dilyn ein diweddariad ar ein blaenoriaethau ar gyfer Radio Cymunedol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2019.

2.21 Cafwyd 55 o geisiadau am drwyddedau gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol ("C-DSP") yn ystod y blynyddoedd ariannol 2020-21 a 2021-22. Mae 40 o'r ceisiadau hyn wedi cael eu cymeradwyo a'u cyhoeddi ers hynny. Mae'r trwyddedau C-DSP cyntaf nawr yn darlledu, yn dilyn lansio nifer o amlblecsau ar raddfa fach o Rownd Un proses drwyddedu SSDAB. Bydd deiliaid trwyddedau C-DSP yn gymwys i wneud cais am y Gronfa , os yw'r gwasanaeth yn darlledu ar ddyddiad y cais.

2.22 Mae cytundeb cyllido blaenorol Ofcom gyda'r DCMS yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021/22. Mae cytundeb newydd ar waith ar gyfer y tair blwyddyn ariannol nesaf, gan ddechrau gyda 2022-23.

## Aelodau'r Panel

2.23 Mae'r Panel yn cynnwys tri aelod a benodwyd gan Fwrdd Rheoli a Pholisi Ofcom. Dyma oedd yr aelodau ar gyfer 2020/21:

- Wendy Pilmer, Cadeirydd y Panel, sy'n ymgynghorydd sy'n gweithio gyda phrif ddarlledwyr y byd i weithredu strategaeth a rheoli newid;
- Olu Bankole, un o weithwyr Ofcom, sydd â phrofiad helaeth mewn materion ariannol a chyllido; a
- Mark Jones, un o gyn weithwyr y BBC sydd â phrofiad helaeth o adrodd, cynhyrchu a rheoli radio.